



Telerau ac Amodau Defnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA

Rhagarweiniad

- 1 Mae Bathodyn Aelodaeth QAA ar gael i'w ddefnyddio gan holl Aelodau QAA yn y DU er mwyn dangos i'r cyhoedd, partneriaid, a'u staff bod eu sefydliad wedi ymrwymo i wella ansawdd trwy eu haelodaeth o QAA.
- 2 Dim ond [Aelodau cyfredol QAA yn y DU](#) gaiff ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA.
- 3 Mae'r holl Hawliau Eiddo Deallusol ar gyfer Bathodyn Aelodaeth QAA yn eiddo i QAA. Mae defnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig gan QAA. Os yw Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael ei atgynhyrchu neu ei ddefnyddio fel arall gan unrhyw berson heb ganiatâd o'r fath, gall QAA orfodi eu hawliau dros eu heiddo trwy gymryd camau cyfreithiol. Mae manylion am [Bolisi Hawlfraint QAA](#) (sydd ar yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) i'w gweld ar wefan QAA.
- 4 Rhaid defnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA yn unol â'r canllawiau a restrir isod.
- 5 Mae QAA yn cadw'r hawl i newid y telerau ac amodau hyn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau yn y telerau ac amodau sy'n perthyn i fathodyn Aelodaeth QAA yn cael eu cadarnhau i chi yn ysgrifenedig. Mae'r Telerau ac Amodau cyfredol ar gyfer Defnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA i'w gweld ar wefan QAA.

Meini prawf cymhwyster

- 6 Mae gan Aelodau QAA (gweler Telerau ac Amodau Aelodaeth QAA¹), sydd wedi cael caniatâd gan QAA, yr hawl i ddefnyddio ac arddangos Bathodyn Aelodaeth QAA yn ystod cyfnod eu Haelodaeth o QAA.
- 7 Byddwch yn derbyn y caniatâd a'r ffeiliau graffeg gynted y caiff ffioedd Aelodaeth QAA eu talu.
- 8 Pan fydd y ffeiliau graffeg ar gyfer Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael eu darparu, bydd QAA yn rhoi trwydded anghyfyngedig i chi, yn rhydd o freindal, na ellir ei throsglwyddo, i ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA yn amodol ar ein telerau ac amodau ar gyfer ei ddefnyddio. Bydd y drwydded yn parhau mewn grym o'r dyddiad yr anfonir y ffeiliau graffeg, tra byddwch yn parhau i fod yn Aelod cymwys o QAA neu hyd nes y bydd y drwydded honno'n cael ei thynnu'n ôl gan QAA, pa un bynnag sydd gynharaf.
- 9 Os daw eich Aelodaeth QAA i ben am ba bynnag reswm, bydd y drwydded i ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael ei dirymu mewn ysgrifen gan QAA.

¹ [Telerau ac Amodau Aelodaeth ar gyfer Darparwyr Addysg Uwch yn Lloegr](#)
[Telerau ac Amodau Aelodaeth ar gyfer Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon](#)

Camddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA

10 Rhaid i chi ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA dim ond mewn perthynas â'ch statws fel Aelod cymwys o QAA ac yn unol â thelerau ac amodau'r drwydded hon (gan gynnwys y manylebau a roddir yn Atodlen 1), ac nid mewn unrhyw ffordd a fydd yn peri i'r cyhoedd gredu bod QAA yn eich cymeradwyo chi neu rannau o'ch gweithgareddau ar gyfer unrhyw agwedd nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig ag Aelodaeth QAA.

11 Dylech hysbysu QAA ar unwaith, gan ddarparu manylion llawn, am unrhyw achos o gamddefnydd gwirioneddol o Fathodyn Aelodaeth QAA, neu fygythiad o hynny, gan drydydd parti gan gynnwys gan Aelod arall o QAA, sy'n dod i'ch sylw.

Gwybodaeth nad yw'n dod o dan y drwydded hon

12 Os ydych chi am ddefnyddio unrhyw un o logos QAA neu wybodaeth sydd y tu allan i gwmpas y drwydded hon, rhaid i chi wneud cais i QAA a chael trwydded ar wahân gan QAA ar gyfer defnydd ychwanegol o'r fath.

13 Mae unrhyw ddefnydd o ddeunyddiau hawlfraint QAA, gan gynnwys graffeg a logos, yn dod o dan ein [Polisi Hawlfraint](#) (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) sydd ar gael ar ein gwefan.

14 Dylid gwneud ceisiadau i ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau hawlfraint QAA, gan gynnwys graffeg a logos, yn ysgrifenedig i: marcoms@qaa.ac.uk.

Cysylltwch â ni

15 Am gymorth a chynghor ar ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth, cysylltwch â ni:

E-bostiwch: marcoms@qaa.ac.uk.

Atodlen 1: Manylebau ar gyfer defnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA

Fformat

Byddwn yn darparu ffeiliau graffeg cyflawn i Aelodau QAA yn y DU mewn fformat EPS, JPEG a PNG (**gweler tudalen 4**).

Maint, Iliw a lleoliad

Ni chaniateir addasu na newid mewn unrhyw ffordd y cyfrannedd na safle cymharol y rhannau sy'n ffurfio Bathodyn Aelodaeth QAA. Ni ddylid defnyddio'r Bathodyn yn llai 50mm o led (189px).

Rhaid i Bathodyn Aelodaeth QAA bob amser ymddangos fel y'i darparwyd, yn ei liwiau gwreiddiol. Darperir y Bathodyn mewn lliw llawn, sef gwyn a llwyd tywyll. Rydym yn argymhell bod Aelodau QAA yn defnyddio'r bathodyn lliw llawn lle bo'r dyluniad yn caniatáu hynny. Ni chaniateir defnyddio lliwiau eraill yn eu lle. Gellir caniatáu gwro oddi wrth y dull hwn mewn amgylchiadau arbennig, a hynny dim ond gyda chymeradwyaeth benodol ymlaen llaw gan QAA.

Dylech bob amser ganiatáu cymaint o le â phosibl ar gyfer Bathodyn Aelodaeth QAA, er mwyn galluogi iddo ymddangos yn amlwg heb ymyrraeth ar ffurf testun neu ddeunydd graffeg arall. Ni ddylai lleoliad y Bathodyn fod yn llai na 10mm o ymyl tudalen, ac o leiaf 10mm i ffwrdd o unrhyw destun a graffeg arall.

Lle mae Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael ei arddangos ochr-yn-ochr â graffeg QAA eraill - megis Nod Ansawdd QAA neu Nod Barcud Cynllun *QE-TNE* - dylai'r holl raffeg gael ei harddangos yr un maint ac yn gymesur â'i gilydd.

Hygyrchedd a 'thestun amgen'

Er mwyn gwella hygyrchedd, lle mae Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael ei ddefnyddio ar wefanau neu lwyfannau digidol eraill, rydym yn argymhell bod y 'testun amgen' a ganlyn yn cael ei ddefnyddio: Bathodyn Aelodaeth QAA.

Hyperddolenni

Mae'n amod o'r drwydded hon, lle mae Bathodyn Aelodaeth QAA yn cael ei ddefnyddio ar wefan, bod yn rhaid hefyd cynnwys hyperddolen yn uniongyrchol i dudalen Aelodaeth QAA ar wefan QAA: www.qaa.ac.uk/membership.

Bathodyn Aelodaeth QAA

Lliw llawn



Llwyd tywyll



Gwyn



Fformat a argymhellir

- Gwefan/digidol: PNG neu JPEG
- Deunydd wedi'i argraffu: EPS

Maint lleiaf a ganiateir

- lled 50mm (189px)

Y Gymraeg

Mae fersiwn Gymraeg a dwyieithog o Fathodyn Aelodaeth QAA ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer Aelodau QAA yng Nghymru, yn yr un fformat ac opsiynau o ran lliw.

Lliw llawn



Llwyd



Gwyn



Sylwer: Erys perchnogaeth Bathodyn Aelodaeth QAA, y celfwaith, ffeiliau electronig a phob atgynhyrchiad ohono yn hawlfraint ac yn eiddo i QAA.

Cysylltwch â ni

I gael cymorth a chyngor ar ddefnyddio Bathodyn Aelodaeth QAA, cysylltwch â Thîm Cyfleusterau QAA:

Ffôn: 01452 557000

E-bost: Compliance@qaa.ac.uk

Published - Mai 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025

Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786

www.qaa.ac.uk